Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Canllawiau ar gofrestru cartref gofal i blant

Fersiwn 1
Medi 2024

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54275, ISBN digidol 978-1-83745-298-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ... 2

**2. Diben y canllawiau** ... 2

**3. Hawliau a chanlyniadau** ... 3

**4. Elfennau allweddol i alluogi canlyniadau cadarnhaol i blant sy'n byw mewn cartref gofal** ... 3

**5. Ystyriaethau allweddol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n bwriadu cofrestru cartref gofal i blant** ... 4

**6. Yr amgylchedd ffisegol** ... 5

**7. Darparu gofal a chymorth** ... 11

**8. Canllawiau ategol allweddol** ... 13

**9. Diogelu** ... 13

**10. Cysylltiadau â gofynion cyrff statudol eraill** ... 14

**Rhestr Termau** ... 15

**Atodiadau** ... 16

**Atodiad A: Adroddiad ar yr ymgynghoriad â'r Comisiynwyr Ifanc** ... 16

**Atodiad B: Rhestr wirio AGC o arferion da i'w hystyried wrth asesu lleoliad** ... 17

**Atodiad C: Deddfwriaeth berthnasol** ... 19

**Atodiad D: Canllawiau ategol perthnasol** ... 20

**Atodiad E: Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan** ... 21



Bu Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithio gyda grŵp rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant a'i Gomisiynwyr Ifanc i ddatblygu'r canllawiau hyn.  Rydym yn ddiolchgar am eu cyfraniad.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae cartrefi gofal i blant yn darparu gofal a chymorth i rai o'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Nod y canllawiau hyn yw nodi'r arferion gorau i ddarparwyr gwasanaethau eu hystyried wrth sefydlu gwasanaeth cartref gofal i blant.

1.2 Canllawiau ategol yw'r rhain a dylid eu darllen ar y cyd â'r 'Canllaw i Gofrestru Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016', a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, sydd i'w gael yma. Dylid hefyd ystyried Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'), Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) ('y rheoliadau') a'r canllawiau statudol cysylltiedig i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni rheoliadau safon gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cartref gofal (Canllawiau ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol) ('y canllawiau statudol').

1.3 Wrth ystyried neu wneud cais i gofrestru gwasanaeth cartref gofal i blant, dylai darparwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau a nodir ym mharagraff 1.2 uchod.

## 2. Diben y canllawiau

2.1 Mae'r canllawiau hyn ar gyfer pob darparwr gwasanaeth sy'n darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Cartrefi gofal i blant.
- Cartrefi gofal i blant ac oedolion iau.
- Cartrefi gofal seibiant byr i blant anabl.

2.2 Maent yn rhoi cyngor ar sefydlu a chofrestru cartref gofal i blant. Mae'n nodi egwyddorion allweddol sy'n ymwneud â diben, lleoliad, amgylchedd a ffabrig y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod llesiant plant yn cael ei hybu a'u bod yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae'r pwyslais ar greu amgylchedd cartrefol, gan atgynhyrchu cartref teuluol bach cyn belled ag y bo modd, lle gall plant deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal a magwraeth.

2.3 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi llunio crynodeb tystiolaeth defnyddiol ar ddulliau gweithredu therapiwtig er mwyn llywio modelau darparu gofal.

2.4 Mae llawer o blant sy'n cael profiad o wasanaethau gofal yn gwneud hynny am eu bod wedi cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu wedi dioddef mathau eraill o

niwed, a byddant wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod[1] ac yn dioddef trawma. Mae byw mewn amgylchedd cartrefol a magwrus yn hanfodol er mwyn helpu plant i adfer yn dilyn trawma.

2.5 Mae pob un ohonom am sicrhau bod plant yn cael y gofal gorau posibl, ac mae gofal preswyl yn ddewis cadarnhaol a buddiol i rai plant. Dylai cartrefi gofal i blant gynnig amgylchedd croesawgar, diogel a magwrus, lle mae plant yn tyfu ac yn ffynnu. Dylai plant gael cymorth i feithrin cysylltiadau cryf a chefnogol gan eu galluogi i ffynnu a chyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol, wrth iddynt dyfu'n oedolion.

2.6 Er mwyn helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn, cafodd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ei gomisiynu gan AGC i geisio barn eu Comisiynwyr Ifanc ynghylch beth sy'n gwneud cartref gofal ardderchog yn seiliedig ar eu profiad bywyd. Grŵp o ryw 60 o aelodau yw Comisiynwyr Ifanc Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ac mae'n cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 6 a 19 oed sy'n byw gyda theulu maeth neu mewn cartref plant yng Nghymru. Wrth ystyried sefydlu cartref gofal i blant, mae'n bwysig darllen Adroddiad Adborth y Comisiynwyr Ifanc ar 'Beth sy'n gwneud Cartref Plant da?' (Hydref 2023).

## 3. Hawliau a chanlyniadau

3.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn nodi'r ffordd y mae'n rhaid i wasanaethau gofal cymdeithasol sicrhau bod canlyniadau llesiant pobl wrth wraidd y broses o ddarparu gofal a chymorth. Mae Rhan 1, adran 2 o Ddeddf 2014 yn nodi ystyr llesiant i berson, ac mae'n cynnwys meysydd ychwanegol i blant.

3.2 Mae Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014 yn nodi'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau i blentyn sy'n '*derbyn gofal'*. Mae'r cod yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y rhoddir sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n nodi'r hawliau sydd gan bob plentyn heb wahaniaethu. Diben cyffredinol Rhan 6 o Ddeddf 2014 yw diogelu a hybu llesiant plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn galluogi pob plentyn i adfer a gwella o niwed yn y gorffennol.

## 4. Elfennau allweddol i alluogi canlyniadau cadarnhaol i blant sy'n byw mewn cartref gofal

[1] Caiff Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod eu diffinio fel digwyddiadau neu sefyllfaoedd sy'n achosi llawer o straen, ac a all fod yn drawmatig, sy'n digwydd yn ystod plentyndod a/neu'r glasoed. Gallant fod yn ddigwyddiad unigol, neu'n fygythiadau cyson i ddiogelwch, ymddiriedaeth neu uniondeb corfforol y person ifanc, ac achosion o dorri'r rhain. (Young Minds, 2018).

4.1 Mae arolygwyr AGC wedi arsylwi yn ystod arolygiadau fod plant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol pan fydd rhai elfennau allweddol, a restrir isod, ar waith. Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried sut y byddant yn sicrhau'r canlynol wrth sefydlu gwasanaeth cartref gofal i blant:

- Bod y plant yn cael gofal a chymorth sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus, yn iach, yn ddiogel rhag niwed, eu bod yn cael gofal a'u bod yn gallu datblygu, ffynnu a chyflawni eu potensial.
- Bod y plant yn cael eu gwerthfawrogi a'u meithrin a chânt eu hystyried fel unigolion â doniau, cryfderau a galluoedd sy'n gallu tyfu a datblygu.
- Bod y plant yn cael eu cefnogi i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl y maent yn rhannu gweithgareddau bywyd dyddiol â nhw yn y cartref gofal a'r gymuned.
- Bod y plant yn cael eu cefnogi gyda'u hanghenion emosiynol, meddyliol, corfforol ac ysbrydol, sy'n cynnwys adfer niwed cynharach i'w hunan-barch a'u hunan-werth er mwyn sicrhau y gallant dyfu a ffynnu.
- Bod y plant eu cefnogi i ddatblygu strategaethau ymddygiad cadarnhaol.
- Bod y plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyflawni'n addysgol a chael uchelgeisiau ar gyfer eu dyfodol.
- Bod y plant yn cael eu cefnogi gan staff gofal ymrwymedig, cyson ac sydd wedi'u hyfforddi'n dda i ddiwallu anghenion pob plentyn ac sy'n gallu cefnogi'r plant i ffynnu a datblygu'n effeithiol.

## 5. Ystyriaethau allweddol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n bwriadu cofrestru cartref gofal i blant

***Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar beth sy'n gwneud cartref gofal da***

Dywedodd y Comisiynwyr Ifanc y dylai cartref da fod yn lân, yn gynnes ac yn glyd. Gwnaethant sôn am bwysigrwydd bwyd da, am gael '*digon o fwyd a dewis o fwyd*'. Gwnaethant ddweud bod bwyd yn rhoi cysur iddynt ac yn gwneud iddynt deimlo'n hapus ac yn ddiogel.

Gwnaethant sôn am bwysigrwydd meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a sut mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Gwnaethant ddweud mai '*pobl sy'n gwneud cartref*' a bod angen iddynt gael eu trin yn garedig ac yn deg a bod angen i bobl wrando arnynt.

***"Pobl llawn cydymdeimlad, a fydd yn gwrando ar ein stori."***

***"Pobl ddymunol sy'n gwneud cartref da."***

***"Dydw i ddim am fyw gyda phobl sy'n gweiddi neu fe fydda' i'n gweiddi'n ôl."***

5.1 Dylai darparwyr gwasanaethau ddeall y gofynion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth cartref gofal. Dylent fod yn glir o ran y

weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a sut y bydd gofal a chymorth yn cael eu darparu er mwyn diogelu, hybu a chynnal annibyniaeth, diogelwch a llesiant y plant y mae'r gwasanaeth yn bwriadu gofalu amdanynt.

5.2 Dylai hyn gael ei nodi yn y datganiad o ddiben. Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth. Dylid cyfeirio at y canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni rheoliadau safon gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cartref gofal (Canllawiau ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol) a Canllawiau ar gyfer llunio datganiad o ddiben - Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

5.3 Mae'n rhaid i blant gael gwybodaeth am y gwasanaeth ar ffurf canllaw ysgrifenedig hefyd, neu ffurf amgen addas, mewn fformat sy'n adlewyrchu eu hanghenion, eu hoedran a lefel eu dealltwriaeth. Gall hyn helpu i sicrhau bod y plentyn yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl wrth symud i mewn i'r cartref a bod y broses hon mor gyfforddus â phosibl. Ceir manylion pellach yn y canllawiau statudol.

## 6. Yr amgylchedd ffisegol

6.1 Mae'r rheoliadau a'r canllawiau statudol o dan Ddeddf 2016 yn nodi'r gofynion ar gyfer pob cartref gofal. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar ystyriaethau penodol o ran lleoliad, cynllun a dyluniad wrth sefydlu gwasanaeth cartref gofal i blant. Rhaid i'r safle gael ei leoli a'i ddylunio a chynnwys cyfarpar addas i ddiwallu anghenion penodol y plant y mae'r gwasanaeth wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

***Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar y lleoliad***

Cafwyd trafodaeth fanwl am deimlo'n ddiogel ac osgoi ardaloedd â lefelau troseddu uchel. Roedd rhai o'r Comisiynwyr Ifanc wedi cael profiad o gyffuriau, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd lle roeddent yn byw, ac roeddent am bwysleisio '*na ddylai fod cyffuriau o gwmpas plant*'. Roedd yn amlwg eu bod am fyw mewn amgylchedd tawel a digynnwrf er mwyn cefnogi eu llesiant.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth da sy'n helpu gyda'u hannibyniaeth a'u hamser hamdden yn ystyriaeth bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc. Er enghraifft, mae'n bwysig bod yn agos i gysylltiadau bws a thrên sy'n eu helpu i allu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

6.2 **Lleoliad:** Mae Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) yn pwysleisio pwysigrwydd lleoliad wrth gynllunio ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn eu helpu i gynnal cydberthnasau cadarnhaol â'u teulu a'u ffrindiau, a sicrhau parhad o ran addysg, gofal iechyd a gwasanaethau eraill.

6.3 Mae lleoliad cartref gofal i blant yn ystyriaeth hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi i fyw bywyd egnïol a llawn yn y gymuned. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod lleoliad y safle yn addas er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y gwasanaeth fel y nodir yn y datganiad o ddiben.

6.4 Fel rhan o'r asesiad o'r lleoliad, dylai darparwyr gwasanaethau ymgynghori â'r awdurdod lleol lle caiff y cartref ei leoli ac ystyried data lleol sydd ar gael i'r cyhoedd, megis ystadegau troseddu lleol, ymgynghori â gwasanaethau lleol, cynnal asesiad risg, a datblygu strategaethau rheoli risg. Bydd AGC yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod yr asesiadau hyn wedi cael eu cwblhau yn ystod y broses gofrestru. Mae rhestr wirio AGC o arferion da i'w hystyried (Atodiad B) yn cynnig canllawiau ychwanegol.

6.5 Rhaid ystyried pa mor hwylus y gellir cyrraedd y gymuned leol a chyfleusterau perthnasol, megis gwasanaethau addysg, iechyd, cyflogaeth a hamdden, yn ogystal â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Os bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, rhaid i ddarparwr y gwasanaeth ystyried sut y bydd yn hwyluso mynediad i'r gymuned.

6.6 Mae cysylltiad plant â'u cymuned, a'r ffordd y cânt eu cynnwys ynddi, yn hanfodol er mwyn iddynt ddatblygu hunaniaeth, diogelwch ac ymdeimlad o berthyn. Mae'n bosibl y bydd rhai cartrefi gofal i blant mewn lleoliad gwledig neu ynysig yn unol â'r nodau a'r amcanion ar gyfer y math o wasanaeth y maent yn dymuno ei ddarparu, ac efallai mai dyma fydd yr opsiwn a ffefrir ar gyfer rhai plant. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o blant, bydd cartref gofal â chysylltiadau da ac sydd wedi'i integreiddio yn y gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.

6.7 Wrth sefydlu cartref gofal i blant, dylai darparwyr gwasanaethau ystyried yr elfennau allweddol canlynol (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Argaeledd gwasanaethau eraill y gall fod angen i'r plant eu defnyddio, megis addysg/lleoliad gwaith, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gwasanaethau cymorth arbenigol, cyfleusterau'r GIG, megis meddyg teulu neu ddeintydd.
- Bod yn agos at gymuned leol er mwyn sicrhau nad yw'r plant yn cael eu hynysu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau (fel y bo'n briodol).
- Mynediad hawdd at amwynderau cymunedol.
- Golygfeydd addas ac ysgogol er mwyn cefnogi iechyd a llesiant y plant. Er enghraifft, gardd a, lle y bo'n bosibl, fynediad at fan gwyrdd lleol, megis parc neu gae chwarae. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ddarparu cartref gofal i blant iau.
- Adeilad a fydd yn gweddu i'r gymuned yn hytrach na sefyll allan. Ni ddylai edrych yn glinigol nac yn sefydliadol.

- Lleoedd parcio priodol a hygyrch a chyfleusterau ar gyfer beiciau i blant sy'n byw yn y cartref, ymwelwyr a staff. Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod digon o leoedd parcio er mwyn lleihau unrhyw achosion posibl o darfu ar y gymdogaeth a fyddai'n effeithio ar y plant sy'n byw yn y cartref.
- Addasrwydd y gymdogaeth leol fel lleoliad i ofalu am blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Dylai darparwyr gwasanaethau asesu unrhyw ffactorau risg posibl a fyddai'n effeithio ar ddiogelwch a llesiant plant.

***Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar y safle***

Dywedodd pob un o'r Comisiynwyr Ifanc y dylai cartref plant fod fel cartref teuluol '*normal'*. Maent yn credu'n gryf mai cartrefi llai o faint sydd orau am eu bod yn fwy cartrefol a normal. Rhoddwyd pwyslais cadarn ar sicrhau nad yw'r cartrefi yn edrych yn amlwg fel cartrefi plant, a all arwain at stigma ynghylch derbyn gofal.

***"Tŷ braf o faint cyffredin, mae pedwar o bobl yn ddigon."***

6.8 **Dyluniad a chynllun:** Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried sut y bydd yr adeilad a'i ardaloedd allanol yn cefnogi nodau ac amcanion y gwasanaeth a chynnwys unrhyw waith addasu sydd ei angen i ddiwallu anghenion plant ag anableddau neu anghenion iechyd penodol. Os byddant yn darparu gofal i blant o ystod oedran eang, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut y byddant yn darparu gofal diogel a chyson ac yn hyrwyddo canlyniadau da i bob plentyn sy'n byw yn y cartref.

6.9 Mewn cartrefi gofal llai o faint sy'n ddiogel, yn gartrefol, yn gyfforddus, mewn cyflwr da ac yn debyg i gartref teuluol, mae plant yn ffynnu orau. Mae cartrefi gofal bach (hyd at bedwar plentyn) yn galluogi plant i feithrin cydberthnasau cadarnhaol a gwerth chweil â staff a phlant eraill.

6.10 Rydym yn cydnabod y gall byw heb blant eraill fod er lles pennaf rhai plant.

6.11 Mae'r rhan fwyaf o gartrefi gofal i blant yng Nghymru yn seiliedig ar gartref domestig. Mae'r manteision i blant yn cynnwys y canlynol:

- Maent yn byw mewn cartref sydd â dyluniad domestig, sy'n fwy magwrus, cartrefol a chyfarwydd ac yn adlewyrchu bywyd teuluol.
- Mae'n eu helpu i deimlo'n ddiogel.
- Mae'n galluogi gwell ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn.
- Mae'n meithrin gwell cydberthnasau â'u cyfoedion a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.
- Mae'n golygu bod plant yn cael eu cefnogi gan dîm bach a chyson o staff sydd wedi'u hyfforddi ac mae'n cynnig cyfleoedd i ddarparu gofal o ansawdd uchel.

6.12 Wrth ddarparu gofal a chymorth i blant ag anableddau, mae'n rhaid i ddyluniad a chynllun y safle gynnwys addasiadau a chyfarpar addas i ddiwallu anghenion y plant a hybu eu llesiant a'u hannibyniaeth. **Rhaid** rhoi sylw dyledus i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

6.13 **Diogelwch:** Yn gyffredinol, nid yw gosod larymau ar ddrysau yn y cartref gofal na defnyddio system teledu cylch cyfyng, y tu mewn a'r tu allan, yn gyson â hawliau plant. Gall fod rhai amgylchiadau pan fydd angen gosod larymau ar ddrysau mewnol er mwyn cadw plant yn ddiogel a, phan fo angen gwneud hyn, **rhaid** bod polisi ysgrifenedig ar waith sy'n nodi sut y cânt eu defnyddio a rhaid adlewyrchu hyn yn y datganiad o ddiben (gweler Gorchmynion Amddifadu o Ryddid isod hefyd).

6.14 Dylai rhagofalon diogelwch tân, megis drysau tân, fod yn unol â ffabrig y cartref a chefnogi amgylchedd cartrefol wrth gydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân.

***Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar sut y dylai cartref da edrych y tu mewn***

Wrth rannu barn am sut y dylai cartref da edrych y tu mewn, dywed ein Comisiynwyr Ifanc wrthym nad yw **swyddfeydd** mawr ffurfiol yn adlewyrchu cartref teuluol ac y byddai'n well ganddynt pe bai eu gofalwyr yn treulio amser gyda nhw yn hytrach nag yn eu swyddfeydd.

Wrth drafod **ystafelloedd byw**, maent yn dweud y dylid cael 'cwtsh' cyfforddus llai o faint, yn ychwanegol at y brif ardal, lle gallant dreulio amser os byddant yn teimlo'n bryderus, wedi'u llethu neu os bydd angen amser arnynt ar eu pen eu hunain.

Mae **ystafelloedd gwely** yn fannau preifat a phersonol iawn, ac maent yn dweud bod angen iddynt fod yn glyd, yn ddiddos ac yn gyfforddus.

***"Mae dewis beth sydd yn y tŷ yn bwysig, cymryd rhan, helpu gyda'r paentio, dewis lluniau a phosteri."***

6.15 **Ardaloedd cymunedol:** Mae angen digon o le ar blant i gefnogi eu hanghenion cymdeithasol a hamdden yn ogystal â sicrhau preifatrwydd pan fo angen. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut y bydd yr ardal a rennir yn darparu ar gyfer plant a staff a sicrhau bod digon o le i bob un ohonynt ymlacio a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd, gan gynnwys prydau bwyd. Dylai ardaloedd cymunedol fod yn hygyrch i'r plant, gyda lefelau priodol o oruchwyliaeth, ac ni ddylid eu cloi fel mater o drefn. Dylai plant gael mynediad at Wi-Fi, socedi trydanol a dyfeisiau digidol diogel fel y bo'n briodol.

6.16 **Cegin:** Dylai'r gegin gynnwys digon o le i bob plentyn sy'n byw yn y cartref a'r staff er mwyn cynnig cyfleoedd i baratoi prydau ac ati, gyda'r nod o ddatblygu sgiliau annibynnol. Mae'n bwysig ystyried sut y caiff y gegin ei threfnu er mwyn rheoli ardaloedd storio a pharatoi bwyd i gefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys anghenion iechyd, dewisiadau o ran ffordd o fyw, credoau crefyddol neu normau diwylliannol.

6.17 **Ardal fwyta:** Dylid dylunio'r ardal hon i helpu'r plant i brofi'r agwedd gymdeithasol ar amseroedd bwyd gyda'r bobl y maent yn byw gyda nhw, gan gynnwys y staff. Dylai'r ardal fod yn ddigon o faint i sicrhau y gall y plant a'r staff i gyd fwyta'n gyfforddus yn ogystal ag unrhyw ymwelwyr os bydd angen, er enghraifft teulu a ffrindiau'r plant yr hoffent eu gwahodd i'r cartref o bosibl.

6.18 Cafwyd barn gymysg gan y Comisiynwyr Ifanc wrth drafod cegin ac ardal fwyta dda. Roeddent yn teimlo y dylai'r cynllun ddibynnu ar faint y tŷ a'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw yno. Maent yn cydnabod bod cegin yn lle da i bawb ddod ynghyd a helpu i goginio, a bod bwrdd mawr i eistedd o'i amgylch yn bwysig er mwyn creu awyrgylch teuluol. Mae'n well gan rai o'r Comisiynwyr Ifanc gael ystafell fwyta ar wahân oherwydd gall yr ystafell gael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau bwrdd eraill, fel gwaith cartref a chwarae gemau.

6.19 **Ystafelloedd gwely:** Ar y cyfan, ystafell wely plentyn yw ei unig ardal bersonol. Dylai ystafelloedd gwely weddu i anghenion a ffordd o fyw unigol y plant, hyrwyddo eu hannibyniaeth (gyda chyfarpar ac addasiadau arbenigol pan fo angen), a darparu ardal gartrefol a diogel y cânt eu cefnogi i'w phersonoli. Dylai plant gael eu hystafell eu hunain oni bai bod y cartref yn cefnogi brodyr/chwiorydd a'u bod wedi gofyn am gael rhannu ystafell wely. Mae'n **rhaid** i staff allu mynd i mewn i ystafelloedd gwely rhag ofn y bydd argyfwng a dylent hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant sy'n byw yn y cartref.

6.20 Argymhellir fel arfer orau y dylid ystyried y canlynol ar gyfer ystafelloedd gwely plant:

- Digon o le i ddesg i'w defnyddio i wneud eu gwaith cartref.
- Cysylltiad digidol at ddibenion adloniant personol, addysg, cysylltu â theulu a ffrindiau, a chefnogi anghenion clinigol os bydd angen.
- Golygfa o'r ffenestr gyda'r gallu i reoli'r gorchuddion ar y ffenestr sy'n addas i anghenion y plentyn, a all gynnwys gosodiadau i atal pwyntiau clymu a chyfyngwyr ffenestr ym mhob achos.

***Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi***

Mae **ystafelloedd ymolchi** a'r angen am breifatrwydd i ddefnyddio'r ystafelloedd hyn yn bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc. Mae cadw ystafelloedd ymolchi a rennir yn lân ac yn gyfforddus yn bwysig.

***"Byddai'n well gen i gael ystafell ymolchi ensuite ond dylai fod o leiaf ddwy ystafell ymolchi, yn dibynnu ar y maint."***

6.21 **Toiledau ac ystafelloedd ymolchi: Rhaid** i blant allu sicrhau eu preifatrwydd a'u hurddas wrth ddefnyddio'r toiledau a'r ystafelloedd ymolchi, a dylid ystyried diogelwch, anghenion a galluoedd unigolion (gan gynnwys, er enghraifft, mislif ac ymataliaeth). Dylai bath neu gawod fod ar gael, yn unol ag anghenion unigol ac fel y nodir yn y datganiad o ddiben.

6.22 Dylai ystafelloedd ymolchi ac ensuites gynnwys mannau storio ar gyfer pethau ymolchi'r plant eu hunain ac eitemau personol eraill. Wrth gynllunio ble y dylid gosod toiledau ac ystafelloedd ymolchi cymunedol, dylai darparwyr gwasanaethau ystyried y canlynol:

- Pa mor agos yw'r toiled cymunedol/ystafell ymolchi gymunedol i'r ystafelloedd gwely.
- Pa mor agos yw'r toiled cymunedol/ystafell ymolchi gymunedol i'r ardaloedd eistedd/bwyta.

6.23 **Ardaloedd aml-bwrpas ar gyfer golchi dillad a glanhau:** Er na fydd ardal aml-bwrpas ar wahân yn y rhan fwyaf o gartrefi domestig, wrth sefydlu cartref gofal i blant, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried lleoliad cyfleusterau golchi dillad. Lle y bo modd, dylai'r cyfleusterau hyn fod oddi wrth ardaloedd cysgu er mwyn osgoi tarfu ar bobl. Dylai plant allu cael gafael ar gyfleusterau golchi dillad yn ddiogel a gyda lefelau priodol o breifatrwydd, a chael cymorth i'w defnyddio lle y bo'n briodol.

***Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar gyfleusterau'r staff***

Un ffocws allweddol yn eu sgyrsiau oedd ardaloedd staff, yn enwedig cynlluniau **swyddfeydd** ffurfiol. Yn gyffredinol, nid ydynt yn teimlo bod swyddfeydd ffurfiol mawr yn adlewyrchu cartref teuluol. Gwnaethant ddweud nad oedd hawl gan rai ohonynt fynd i mewn i'r mannau hyn i staff yn eu cartrefi. Dywed ein Comisiynwyr Ifanc wrthym fod gofalwyr yn tueddu i ymgasglu yn y swyddfeydd yn hytrach na threulio amser gyda nhw yn y mannau cymunedol, yn gwylio'r teledu, yn sgwrsio ac ati.

6.24 **Cyfleusterau'r staff:** Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd gofal i staff sy'n cysgu yn y cartref dros nos a darparu ystafell wely/ystafelloedd gwely a chyfleusterau priodol iddynt. Bydd angen ystyried lle y byddant yn cysgu o ran pa mor agos y byddant at y plant ac a fydd angen darparu staff nos sy'n effro.

***Safbwyntiau'r Comisiynwyr Ifanc ar sut y dylai cartref da edrych ar y tu allan, gan gynnwys y gerddi a'r ardaloedd awyr agored***

Dywedodd y Comisiynwyr Ifanc wrthym na ddylai cartref plant edrych yn wahanol i gartref teuluol unrhyw blentyn arall. Maent yn dweud na ddylai fod unrhyw arwyddion (corfforaethol) i ddangos mai cartref plant yw eu cartref.

Mae **gardd** dda yn bwysig i'n Comisiynwyr Ifanc gan fod llawer ohonynt yn hoffi bod yn yr awyr agored ac, weithiau hyd yn oed, y mae'n well ganddynt fod yn yr awyr agored (pan nad yw'n bwrw glaw!). Maent yn siarad am gael ardal sy'n ddigon mawr i chwarae gemau neu ymarfer chwaraeon fel pêl-droed. Maent hefyd yn siarad am bwysigrwydd gallu treulio amser yno pan fo angen llonydd arnynt, amser i feddwl neu fyfyrio, ac amser i ffwrdd oddi wrth eraill.

***"Dim arwyddion yn dweud "CARTREF GOFAL" na rheiliau o'i amgylch."***
***"Taclus, ardal laswelltog ddymunol, lle i chwarae."***
***"Goleuadau bach disglair ('fairy lights')."***
***"Pan fydd angen llonydd arnaf, mae'n well gen i fynd allan i'r ardd."***

6.25 Ar gyfer gwasanaethau sy'n gofalu am bum plentyn neu fwy, mae'r rheoliadau'n nodi:

- Rhaid i bob ystafell wely a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth gael ystafell ymolchi en-suite sy'n cynnwys basn golchi dwylo, toiled a chawod hygyrch.
- Rhaid i bob ystafell wely a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth gael o leiaf 12 metr sgwâr o arwynebedd llawr y gellir ei ddefnyddio. Os bydd y person sy'n byw yn yr ystafell yn defnyddio cadair olwyn yn barhaol ac yn gyson, rhaid i'r ystafell wely gael o leiaf 13.5 metr sgwâr o arwynebedd llawr y gellir ei ddefnyddio.
- Mae angen cyfrifo arwynebedd cymunedol fesul person hefyd. Dylai fod o leiaf 4.1 metr sgwâr ar gyfer pob unigolyn a 5.1 metr sgwâr ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

6.26 **Ardal Allanol:** Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried addasrwydd yr ardal allanol a sicrhau ei bod yn bodloni nodau ac amcanion y gwasanaeth a sicrhau bod llesiant cyffredinol y plant yn cael ei hyrwyddo. Dylai'r ardal awyr agored gefnogi'r plant i gael cyfleoedd i chwarae, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a, lle y bo modd, gynnig cyfleoedd i gael eu cefnogi a'u hannog i dyfu planhigion a llysiau.

## 7. Darparu gofal a chymorth

7.1 Wrth sefydlu gwasanaeth cartref gofal i blant, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut y caiff gofal a chymorth eu darparu mewn ffordd

sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal diogelwch a llesiant pob plentyn sy'n byw yn y cartref, ac yn unol â'r datganiad o ddiben.

7.2 Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried y canlynol:

- Dulliau gweithredu therapiwtig i ategu gofal a chymorth.
- Unrhyw fodel gofal penodol, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth arbenigol megis therapi ac addysg.
- Sut y byddant yn sicrhau bod gan staff gofal y sgiliau a'r arbenigedd i ddefnyddio dulliau gweithredu therapiwtig, cymhwyso'r model gofal yn ymarferol a diwallu anghenion y plant sy'n byw yn y cartref.
- Ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a sut y bydd y plant yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

7.3 Mae'n **rhaid** i ddarparwyr gwasanaethau ystyried yr ystod o anghenion sydd gan y plant y maent yn bwriadu gofalu amdanynt ac a fydd angen i'r plant ddefnyddio gwasanaethau arbenigol megis gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, therapi iaith a lleferydd, therapi galwedigaethol, a'u gallu i gael gafael ar y gwasanaethau hyn o ran lleoliad y cartref.

7.4 Mae'n **rhaid** i ddarparwyr gwasanaethau sy'n darparu eu gwasanaethau clinigol neu therapiwtig arbenigol eu hunain sicrhau bod y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi'u cofrestru â'r cyrff proffesiynol perthnasol a bod ganddynt y sgiliau a'r arbenigedd i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.

7.5 Wrth baratoi i gofrestru, mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau hefyd yn ystyried sut y byddant yn derbyn ac yn asesu plant ac yn llunio cynlluniau personol ar eu cyfer, yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau statudol.

7.6 Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut y byddant yn sicrhau:

- Bod y plant yn cael gofal diogel a chyson gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd i sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau llesiant personol.
- Bod y plant yn cael eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau am eu bywydau a bod y gwasanaeth yn gofyn am eu barn o ran sut y caiff eu gofal ei ddarparu.
- Bod cymorth eirioli ar gael i'r plant.
- Bod gan y plant weithiwr cyswllt sydd â rôl ganolog mewn perthynas â phob plentyn ac sy'n cymryd rhan mewn unrhyw adolygiad o'i ofal a'i gymorth.
- Bod y plant yn gallu cael gafael ar unrhyw wasanaeth arbenigol er mwyn sicrhau bod eu canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni.
- Os byddant yn darparu gofal drwy fodel penodol, bod gan bob aelod o'r staff y sgiliau a'r arbenigedd i ddarparu'r gofal a bod hyn wedi'i amlinellu yn y datganiad o ddiben.

- Bod gofal a chymorth yn cael ei ddarparu i'r plant yn unol â'u cynllun gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol.
- Bod cynlluniau personol yn disgrifio sut y caiff anghenion gofal a chymorth pob plentyn eu diwallu'n gyfannol, gan gynnwys trefniadau i gefnogi iechyd a llesiant a chefnogi'r plant i gyflawni eu canlyniadau personol.
- Bod agwedd gadarnhaol at addysg yn cael ei hyrwyddo yn y cartref, er mwyn sicrhau bod y plant yn cyflawni eu nodau addysgol.
- Bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo camau i ddatblygu arferion a strwythurau i'r plant.

## 8. Canllawiau ategol allweddol

8.1 Wrth sefydlu gwasanaeth cartref gofal i blant, dylai darparwyr gwasanaethau fod yn ymwybodol o ganllawiau penodol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc. Caiff canllawiau ategol perthnasol eu hamlinellu yn yr Atodiad (D), ond nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

## 9. Diogelu

9.1 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ofal a chymorth gael eu darparu mewn ffordd sy'n diogelu'r plant sy'n byw yn y cartref.

9.2 Wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau diogelu, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod y rhain yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a bod systemau ar waith yn y cartref i sicrhau bod y plant yn cael eu diogelu'n briodol. Cyfrifoldeb darparwr y gwasanaeth yw sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall y gweithdrefnau hyn ac yn gweithredu yn unol â nhw. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi hyfforddiant ar ddiogelu.

9.3 Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ganllaw Arfer Cymru Gyfan ar gyfer diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o leoliad gofal.

9.4 Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ganddynt i sicrhau bod y plant yn cael eu diogelu'n briodol a bod gan y staff y sgiliau a'r arbenigedd i sicrhau eu bod yn effro i unrhyw sefyllfa lle gallai rhywun gamfanteisio ar blentyn. Mae hwn yn faes cymhleth a bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod plant sy'n agored i gamfanteisio yn cael cymorth sy'n eu diogelu ond sydd hefyd yn eu galluogi i ddatblygu strategaethau i'w cadw'n ddiogel.

9.5 Ym mis Mawrth 2022, rhoddodd Llywodraeth Cymru Protocol Cymru Gyfan: Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli ar waith. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ddangos drwy eu polisïau a'u hymarfer sut y byddant yn gweithio o fewn fframwaith y protocol

hwn. Mae'r pecyn cymorth hwn yn adnodd defnyddiol Lleihau Troseddu plant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarferol i Weithwyr Proffesiynol.

9.6 Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gefnogi'r defnydd o dechnegau arferion cyfyngol cadarnhaol sy'n bodloni egwyddorion Llywodraeth Cymru, Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod egwyddorion y canllawiau hyn yn cael eu bodloni wrth ofalu am blant o ddydd i ddydd, gan ddefnyddio dulliau cadarnhaol ac ataliol. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio arferion cyfyngol a dim ond pan fo posibilrwydd gwirioneddol o niwed i'r unigolyn neu eraill y dylid eu defnyddio.

9.7 Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n byw mewn cartref gofal sy'n destun gorchymyn amddifadu o ryddid yn cael ei ddiogelu o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai darparwyr gwasanaethau gyfeirio at Ganllawiau AGC ar awdurdodaeth gynhenid gorchmynion Amddifadu o Ryddid yr Uchel Lys ar gyfer plant.

## 10. Cysylltiadau â gofynion cyrff statudol eraill

10.1 Cyfrifoldeb darparwr y gwasanaeth yw ceisio cyngor gan asiantaethau statudol perthnasol eraill er mwyn sicrhau bod y cartref gofal i blant yn bodloni'r gofynion statudol.

10.2 Mae hyn yn cynnwys adrannau cynllunio'r awdurdod lleol, awdurdodau tân, iechyd yr amgylchedd, a'r awdurdod gweithredol iechyd a diogelwch. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau nodi'r ddeddfwriaeth ar systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi plant.

10.3 Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau yn deall y gofyniad am systemau llethu tân fel y'i nodir yng Nghylchlythyr Rheoliadau Adeiladu Cymru: Eglurhad Systemau Llethu Tân Awtomatig mewn Cartrefi Gofal ar gyfer Plant.

## Rhestr Termau

### Plant

Defnyddir y term ‘plant’ neu ‘plentyn’ i gyfeirio at bobl hyd at 18 oed.

### Modelau gofal

Glasbrint neu fframwaith i lywio ymarfer staff, gyda phwyslais penodol ar sut i greu a chynnal newid/effaith. Yn ddelfrydol, mae'r modelau hyn yn defnyddio technegau profedig sy'n seiliedig ar naill ai ddamcaniaeth o ymddygiad neu'r rheswm pam mae problemau'n codi a/neu dystiolaeth o'r ‘hyn sy'n gweithio’. Mae'r modelau hyn yn helpu i sicrhau bod pobl sydd ag anghenion tebyg yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd tebyg a chydgysylltiedig, h.y. mae modd atgynhyrchu a throsglwyddo ymarfer.

### Unigolyn cyfrifol

Person a ddynodwyd gan ddarparwr gwasanaeth o dan Ddeddf 2016 i weithredu ar ei ran mewn perthynas â gwasanaeth(au) cofrestredig.

### Gwasanaeth

Mae hwn yn cyfeirio at wasanaeth unigol. Ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, byddai hyn yn golygu cartref gofal a gaiff ei redeg mewn lleoliad penodol.

### Darparwr gwasanaeth

Person neu sefydliad sydd wedi'i gofrestru ag AGC i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

### Datganiad o ddiben

Y datganiad o ddiben yw'r brif ddogfen sy'n nodi eich gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a'r ffordd rydych yn bwriadu diwallu anghenion y plant sy'n ei ddefnyddio. I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid i'r datganiad o ddiben ei gynnwys, gweler canllawiau AGC ar lunio datganiad o ddiben.

## Atodiadau

### Atodiad A: Adroddiad ar yr ymgynghoriad â'r Comisiynwyr Ifanc

Plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn helpu i lywio'r canllawiau ar agor cartrefi plant o safon yng Nghymru

Adroddiad AGC ar Adborth y Comisiynwyr Ifanc

**Atodiad B: Rhestr wirio AGC o arferion da i'w hystyried wrth asesu lleoliad**

Mae'r rhestr wirio hon wedi cael ei datblygu i gefnogi arferion da wrth asesu lleoliadau ac mae'n annog darparwyr a gwasanaethau lleol i gydweithio fel y gall plant sy'n byw mewn cartrefi plant gael yr un buddion a chael eu diogelu yn yr un ffordd â phlant eraill.

Ei nod yw helpu darparwyr i wneud y canlynol:

- Dod o hyd i gartrefi gofal i blant mewn ardaloedd lle gallant gyd-fynd ag adnoddau lleol eraill ac ymateb i angen a nodwyd yn yr ardal awdurdod lleol, yr is-ranbarth neu'r rhanbarth perthnasol.
- Sicrhau bod safleoedd a ddefnyddir ar gyfer cartrefi plant mewn lleoliadau priodol ac addas fel bod plant sy'n derbyn gofal gan y cartref:
  - Yn cael eu diogelu'n effeithiol,
  - Yn gallu cael gafael ar wasanaethau er mwyn diwallu'r anghenion a nodir yn eu cynlluniau gofal a lleoli.

Mae'n arfer dda i asesiad o leoliad gael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiwygio er mwyn ystyried unrhyw risgiau newydd wrth i'r rhain gael eu nodi.

**Beth y dylai asesiad o leoliad ei gwmpasu?**

- Tystiolaeth o ymgynghoriad â chomisiynwyr lleol a rhanbarthol perthnasol er mwyn dangos bod lleoliad y cartref wedi cael ei ystyried mewn perthynas â'r galw tebygol am y gwasanaeth yn ardal yr awdurdod lleol perthnasol a'r is-ranbarth/rhanbarth ehangach.
- Ymgynghoriad ag adrannau cynllunio'r awdurdod lleol.
- Nodweddion cadarnhaol mewn cymuned leol a fyddai o fudd i blant, megis cyfleusterau hamdden, chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a chysylltiadau trafnidiaeth.
- Mynediad at wasanaethau addysg a gofal iechyd perthnasol yn unol â'r model gwasanaeth / datganiad o ddiben a ragwelir.
- Mynediad at wasanaethau ac adnoddau a fyddai'n cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol neu ethnig plentyn.
- P'un a yw lleoliad y cartref yn cynyddu'r potensial i blentyn sydd eisoes yn agored i niwed ddioddef trosedd, megis cael ei dargedu at ddibenion camfanteisio rhywiol neu fathau eraill o gamfanteisio.
- P'un a yw'n debygol y bydd y plant sy'n byw yn y cartref yn cael eu denu i droseddau gan gangiau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal leol.
- Addasrwydd y gymdogaeth leol fel lleoliad i ofalu am blant a all fod wedi dioddef achosion o gam-drin neu esgeulustod eisoes.
- A oes ffactorau eraill yn yr amgylchedd lleol a fyddai'n peri perygl i blant.

**Camau allweddol wrth asesu lleoliad**

1. Coladu data lleol sydd ar gael i'r cyhoedd, er enghraifft:
   - Chwiliadau ar-lein o ystadegau troseddu lleol; asesiad o anghenion y boblogaeth / dadansoddiad o anghenion y farchnad.
   - Data ar ysgolion a gwasanaethau gofal iechyd lleol.
   - Cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol.

2. Ymgynghoriad â gwasanaethau lleol, gan gynnwys:

   - Comisiynwyr lleol a rhanbarthol perthnasol.
   - Adrannau cynllunio.
   - Gwasanaethau sydd â chyfrifoldeb statudol am ddiogelwch a llesiant plant yn yr ardal h.y. gwasanaethau cymdeithasol, addysg, timau gofal iechyd perthnasol, yr heddlu, gwasanaethau prawf.

3. Asesu unrhyw risgiau

   - Ar ôl coladu gwybodaeth berthnasol, dylai darparwr cartref arfaethedig gwblhau dadansoddiad er mwyn llunio barn o ran risgiau posibl, manteision ac unrhyw anfanteision mewn perthynas â lleoliad arfaethedig y cartref gofal ac unrhyw risgiau cysylltiedig.
   - Unwaith y bydd asesiad drafft wedi'i lunio, byddai'n arfer dda ceisio adborth yr asiantaethau yr ymgynghorwyd â nhw'n flaenorol.
   - Yn y pen draw, y darparwr / unigolyn cyfrifol fydd yn gyfrifol am lunio barn o ran natur unrhyw bryderon a sut y gallai'r rhain gael eu rheoli.

4. Datblygu strategaethau i reoli risg

   - Lle bydd y dadansoddiad yn nodi risgiau neu bryderon ynglŷn â'r lleoliad arfaethedig, dylai'r darparwr nodi a datblygu camau gweithredu i ymdrin â'r rhain a'u lliniaru.
   - Ar ôl i'r gwasanaeth gael ei gofrestru, pan fydd lleoliadau newydd yn cael eu cynllunio, dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr awdurdod lleoli yn ymwybodol o unrhyw faterion a nodwyd yn ystod proses asesu'r lleoliad a sut mae'r cartref yn mynd i'r afael â'r rhain. Dylai hyn gynnwys unrhyw risg a cham lliniaru sy'n gysylltiedig â phroffil anghenion plentyn penodol.

## Atodiad C: Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 6 Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019

Canllawiau Statudol mewn perthynas â Rhannau 3 i 20 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)

Cylchlythyr Rheoliadau Adeiladu Cymru: Eglurhad Systemau Llethu Tân Awtomatig mewn Cartrefi Gofal ar gyfer Plant

## Atodiad D: Canllawiau ategol perthnasol

Canllaw i Gofestru Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Templed ar gyfer datganiad o ddiben

Canllawiau ar gwblhau adolygiad o ansawdd y gofal: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Templed ar gyfer cwblhau adroddiad yr adolygiad o ansawdd y gofal

Canllaw i Unigolion Cyfrifol ar ymweliadau statudol â gwasanaethau rheoleiddiedig

Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol

Dulliau cadarnhaol: Lleihau arferion cyfyngol ym maes gofal cymdeithasol

**Atodiad E: Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan**

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Canllaw Arfer Cymru Gyfan: Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol

Canllaw Arfer Cymru Gyfan: Diogelu plant a all fod wedi'u masnachu

Canllaw Arfer Cymru Gyfan: Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal